



## Goruchwyliaeth Addysgol - Trefniadau Eithriadol: adroddiad yr ymweliad monitro â Choleg Rhyngwladol Prifysgol Bangor, Mai 2021

### Canlyniad yr ymweliad monitro

1 Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad blynyddol ac yn ystod yr ymweliad monitro, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod Coleg Rhyngwladol Prifysgol Bangor (y Coleg) yn gwneud cynnydd canmoladwy o ran parhau i fonitro, adolygu a gwella ei ddarpariaeth addysg uwch ers yr [adolygiad monitro ym mis Mai 2020](#).

2 Yn sgil y pandemig COVID-19, gweithredwyd yr adolygiad ar-lein ac, yn rhan o hynny, cynhaliwyd cyfarfodydd gydag uwch dimau rheoli, staff addysgu a myfyrwyr. Mae cwmpas y dystiolaeth a ystyriwyd, a natur y beirniadaethau a'r cerrig milltir gweithredol wedi aros yr un fath, ond gwnaed rhai addasiadau am ei fod yn digwydd ar-lein. Gwnaethpwyd asesiad risg cyn yr adolygiad i ganfod a lleihau unrhyw risgiau posibl.

### Newidiadau ers yr adolygiad monitro diwethaf gan QAA

3 Agorodd Coleg Rhyngwladol Prifysgol Bangor ym mis Medi 2016, ac felly mae'r Coleg yn ei bumed flwyddyn o weithredu. Agorwyd y Coleg gan Grŵp Addysg Ryngwladol Rhydychen [Oxford International Education Group] ('y Grŵp') mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor ('y Brifysgol'), ac mae'n goleg mewnosodedig ar gampws Prifysgol Bangor.

4 Mae'r Coleg yn derbyn myfyrwyr ar bedwar pwynt yn ystod y flwyddyn, ac mae 189 o fyfyrwyr wedi eu cofrestru ar hyn o bryd ar ystod o raglenni: International Year Zero (IYZ), International Year One (IY1) ac International Incorporated Masters (IIM). Mae'r IYZ yn cynnig llwybrau at astudio: Busnes, Rheolaeth ac Economeg; y Gyfraith, y Cyfryngau, Seicoleg a'r Gwyddorau Cymdeithasol; a Pheirianneg a Chyfrifiadureg. Mae'r IY1 yn cynnig llwybrau at astudio: Busnes, Rheolaeth a Chyllid; a Seicoleg. Mae'r IIM yn cynnig llwybrau at astudio: Busnes a Rheolaeth; Buddsoddi a Bancio; Cyfrifeg a Chyllid; a Seicoleg. Yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol (2020-21), mae'r Coleg wedi cyflwyno rhaglen integredig lawn amser i fyfyrwyr domestig - Blwyddyn Sylfaen Busnes mewn Rheoli Busnes ac Economeg. Mae'r data'n dangos bod nifer y staff wedi aros yn gymharol debyg dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae'n cynnwys staff llawn amser (Cyfarwyddwr y Coleg, y Cyfarwyddwr Academaidd a'r Rheolwr Gweinyddu) a 17 o diwtoriaid sesiynol.

### Canfyddiadau'r ymweliad monitro

5 Ffurfiodd y tîm gasgliad yr ymweliad hwn drwy ddarllen Adroddiad y Broses Fonitro Flynyddol, adolygu'r dystiolaeth ddogfennol a gyflwynwyd a chynnal cyfarfodydd ar-lein gyda staff a myfyrwyr. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod y Coleg wedi gwneud cynnydd canmoladwy ac yn parhau i ymgysylltu'n weithredol â chorff dyfarnu'r Brifysgol i wella profiad y myfyrwyr, a thrwy ei gamau gweithredu a'i weithgareddau, yn dangos ei fod yn cyflawni'r Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sy'n elfennau gorfodol o God Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd).

6 Mae'r Coleg wedi ymateb yn effeithiol i'r ddau awgrym a wnaed yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol ym mis Mai 2020: gwerthuso effaith y cyfarfodydd a gynhelir bob tymor o ran datblygu arferion y staff, a datblygu arferion pellach gyda'r nod o hwyluso dealltwriaeth staff o'r Cod

Ansawdd diwygiedig. Mae Cynllun Gweithredu parhaus y Coleg, yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021, a chyfarfodydd gyda staff y Coleg yn cadarnhau bod mentrau sydd wedi eu trefnu i ddatblygu staff yn parhau a bod y pynciau a drafodir wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth academaidd - er enghraifft, sesiynau myfyriol i wella sgiliau addysgu ar-lein a chyflwyno'r Diwrnod Datblygu Staff blynyddol. Mewn perthynas â'r Cod Ansawdd, mae dogfen fapio gyfredol y Coleg ar gael i'r staff i gyd ar y rhith-amgylchedd dysgu, ac ym mis Hydref 2020, yn ystod y Diwrnod Datblygu Staff blynyddol, cynhaliwyd sesiwn datblygu dan y teitl 'Sut mae'r Coleg yn bodloni gofynion Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU?'.

7 Mae'r Coleg yn parhau i gynnal, adolygu a gwella ei ddarpariaeth addysg uwch drwy'r Cynllun Gweithredu parhaus. Yn ystod 2020-21, er mwyn gwella'r dulliau o farcio a rhoi adborth, cynhaliodd y Coleg sesiwn ar farcio a safoni fel rhan o'r Diwrnod Datblygu Staff ym mis Hydref 2020, ac ym mis Ionawr 2021, cynhyrchodd fideo ynglŷn â'r pwnc, sydd ar gael i diwtoriaid ei wylio'n unigol. I ddatblygu strategaethau addysgu ar-lein ymhellach, cynhaliwyd sesiynau datblygu mewnol ym misoedd Tachwedd 2020 a Chwefror 2021 er mwyn annog ac ysgogi'r myfyrwyr, a arweiniodd wedi hynny at gynhyrchu canllawiau safonol ar gyfer dosbarthiadau ar-lein. Mewn ymateb i bryderon ynglŷn â llên-ladrad, diweddarwyd tudalen deitl pob asesiad ym mis Rhagfyr 2020 i gynnwys datganiad datgelu, a chyflwynwyd sesiynau dal i fyny ym mis Chwefror 2021 i fyfyrwyr sydd wedi eu cofrestru'n hwyr.

8 Mae'r Coleg wedi cyflwyno adroddiad data manwl ac wedi darparu dadansoddiad cynhwysfawr o'r canlyniadau yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2021. Cadarnhaodd gwybodaeth a dderbyniwyd ym mis Mawrth 2021 fod 110 o fyfyrwyr newydd wedi eu cofrestru yn ystod 2020-21. Wedi hynny, recriwtiwyd 79 o fyfyrwyr ychwanegol ym mis Ebrill 2021, a hynny'n bennaf o ganlyniad i gymeradwyo dyddiad cychwyn ym mis Ebrill ar gyfer y rhaglen IYZ mewn Rheoli Busnes ac Economeg, gan ddwyn y ffigur cyfredol i 189, sef cynnydd o 20% ar y flwyddyn flaenorol. Mae'r canlyniadau terfynol ar gyfer cyfraddau cadw, cynnydd a chwblhau yn 2019-20 yn dal i fod yn uchel, ac maent yn uwch na tharged y Coleg o 87% ar gyfer cyfraddau cwblhau, pasio a chynnydd. Mae'r cofnodion yn dangos bod 88% o'r myfyrwyr cofrestredig wedi cwblhau'r cam cyntaf, a bod 93% ohonynt wedi pasio. Mae 92% o'r myfyrwyr a basiodd wedi mynd ymlaen i'r ail gam.

9 Mae'r strwythur llywodraethu cyfredol yn parhau i sicrhau bod darpariaeth academaidd y Coleg yn dal i fod yn addas i'r diben. Mae'r Bwrdd Llywio'n cynnwys swyddogion Prifysgol Bangor a Grŵp Addysg Ryngwladol Rhydychen sy'n cyfarfod o bryd i'w gilydd i drafod materion sy'n ymwneud â'r Coleg ac i fonitro ac adolygu sylwadau ac adroddiadau a dderbynnir gan y Cyd-Fwrdd Academaidd a'r Cyd-Fwrdd Gweithredol. Mae'r Cyd-Fwrdd Academaidd - sy'n cynnwys cynrychiolwyr y Brifysgol, y Grŵp a'r Coleg - yn parhau i oruchwylio prosesau monitro mewnol y Coleg; yn benodol, gweithgareddau'r Pwyllgor Dysgu ac Addysgu, Fforwm y Myfyrwyr, a'r Pwyllgorau Rhaglen. Mae'r Bwrdd hefyd yn derbyn adborth gan arholwyr allanol a thiwtoriaid cyswllt.

10 Mae'r Coleg yn gweithredu prosesau monitro mewnol cadarn i sicrhau bod y safonau a'r disgwyliadau a osodir gan Brifysgol Bangor yn cael eu cyflawni. Defnyddir gwybodaeth a gafwyd o gyfarfodydd y Pwyllgor Dysgu ac Addysgu, sesiynau Fforwm y Myfyrwyr, cyfarfodydd ar lefel y rhaglenni, arolygon y myfyrwyr, adroddiadau'r arholwyr allanol ac ymatebion y Coleg iddyn nhw, ac adroddiadau'r tiwtoriaid cyswllt, i hysbysu'r adroddiadau SA 1 (rhaglen) a SA 2 (modiwl) blynyddol sy'n ofynnol gan y Brifysgol.

11 Mae'r Coleg yn parhau i ddatblygu ei ddull cynhwysfawr sydd wedi ei ymgorffori yn ei Strategaeth Addysgu, Dysgu ac Asesu, ac mae wedi gwella'r cyfleoedd dysgu i'w fyfyrwyr yn ystod y pandemig. Er enghraifft, mae'r Coleg wedi datblygu rhaglen groeso ar-lein gynhwysfawr, wedi llunio canllaw ynghylch astudio ar-lein, wedi trefnu sesiynau 'byw' ar-lein i sicrhau bod y myfyrwyr yn cymryd rhan weithredol ynddynt, ac mae wedi cynhyrchu nifer o fideos sgiliau astudio sydd ar gael ar-lein. Mae'r Coleg wedi datblygu a dosbarthu canllawiau i ddarlithwyr

am addysgu ar-lein i'w cefnogi yn eu gwaith, wedi cyflwyno arsylwadau galw heibio ar draws pob modiwl er mwyn rhannu arferion da, wedi cynnal nifer o sesiynau datblygu mewnol er mwyn gwella'r dulliau o ddarparu dysgu cyfunol ac ar-lein, ac mae wedi cyflwyno Diwrnod Datblygu Staff blynyddol.

12 Mae'r Coleg yn gweithredu dull cyson o fonitro a gwella effeithiolrwydd ei staff, ac mae Llawlyfr Gweithredu a Sicrhau Ansawdd y Coleg yn nodi'r disgwyliadau'n glir. Cynhelir arsylwadau ffurfiol gan gymheiriaid yn gyfnodol sy'n ofynnol i bob darlithydd sy'n addysgu ar y rhaglenni. Yn ogystal, caiff perfformiad y staff ei arfarnu'n flynyddol, a disgwylir iddynt gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau datblygu a gynhelir gan y Coleg, y Grŵp a Phrifysgol Bangor, gyda'r nod o wella profiadau dysgu'r myfyrwyr.

13 Mae'r Coleg yn parhau i adeiladu ar ei ddull systematig o gasglu adborth gan fyfyrwyr, ac ers mis Tachwedd 2020, mae wedi cynnwys cynrychiolwyr y myfyrwyr ar y Pwyllgor Dysgu ac Addysgu. Am eu bod yn cynrychioli llais y myfyrwyr, mae cynrychiolwyr y myfyrwyr yn chwarae rôl bwysig yn y system adborth drwy alluogi'r staff uwch i gasglu barn y myfyrwyr hynny sy'n llai parod i ddwyn pryderon academaidd a phersonol yn uniongyrchol i sylw'r aelodau staff. Cynhelir Fforymau'r Myfyrwyr bob tymor, gyda'r nod o gryfhau cysylltiadau cyfathrebu rhwng aelodau uwch o'r staff a myfyrwyr. Mae'r Coleg hefyd yn cynnal arolygon bob tymor i gasglu gwybodaeth am ganfyddiadau'r myfyrwyr o'u profiadau dysgu. Yn ogystal, mae'r Coleg wedi sefydlu gwefan benodol i roi cyfle i'w fyfyrwyr godi materion yn ddiennw, a thrwy hynny ddileu unrhyw ofn ynghylch codi eu llais, neu boeni am beth y gallai pobl eraill ei feddwl.

14 Mae'r Coleg yn defnyddio dull rhagweithiol o gefnogi ei fyfyrwyr, ac fe gadarnhawyd hyn gan y rhai oedd yn bresennol yn y cyfarfod gyda myfyrwyr. Dyrennir tiwtor personol i bob myfyriwr sy'n darparu cyngor academaidd ac ymarferol, ac mae rhwydwaith o staff academaidd a staff cymorth ar gael iddynt sy'n barod i'w helpu. Mae nifer o ganllawiau defnyddiol hefyd ar gael i'r myfyrwyr ar y rhith-amgylchedd dysgu. Yn ogystal, am eu bod yn fyfyrwyr y Brifysgol, mae hawl ganddynt i ddefnyddio'r ystod lawn o wasanaethau'r Brifysgol, gan gynnwys y rhith-amgylchedd dysgu, llyfrgell y Brifysgol, adnoddau ar-lein ychwanegol, ac mae ei threfnau cwyno ac apelio ffurfiol a'i gwasanaethau iechyd ar gael iddynt.

15 Mae'r Coleg yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr yn gyson am y gofynion mynediad, y rhaglenni a gynigir a'r rheoliadau a pholisiau i ddarparu ymgeiswyr a'r myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru'n barod. Mae'r manylion sydd ar gael ar y wefan, ym manylebau'r rhaglenni, llawlyfrau'r myfyrwyr, ac ar y rhith-amgylchedd dysgu, wedi eu nodi'n glir, ac fe gadarnhawyd hyn gan y rhai oedd yn bresennol yn y cyfarfod gyda myfyrwyr. Mae gofyn i bob myfyriwr newydd fynychu sesiynau ymsefydlu ble maent yn cwrdd â staff academaidd, dysgu rhagor am eu cyfrifoldebau academaidd a cholegol, derbyn gwybodaeth am gampws Prifysgol Bangor a chael gwybodaeth ymarferol am y ddinas, er enghraifft, sut i gofrestru gyda meddyg teulu.

## **Cynnydd o ran gweithio gyda'r pwyntiau cyfeirio allanol er mwyn cyflawni disgwyliadau'r DU mewn perthynas ag addysg uwch**

16 Mae'r Coleg yn parhau i weithio'n agos gyda'r Brifysgol i ddatblygu rhaglenni newydd ac addasu neu ail-ddilysu rhai cyfredol, ac mae'n sicrhau bod pob un o'r gofynion sydd wedi eu nodi yng Nghod Ymarfer y Brifysgol ar gyfer Cymeradwyo, Monitro ac Adolygu Rhaglenni'n cael eu bodloni. Wrth ddatblygu rhaglenni newydd, mae'r Coleg yn parhau i ddefnyddio pwyntiau cyfeirio allanol yn effeithiol - megis *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC), y Datganiadau Meincodi Pwnc gan QAA, Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop, a'r system ryngwladol IELTS ar gyfer profi sgiliau Saesneg - er mwyn sicrhau bod cynnwys y modiwlau, y dulliau darparu a'r gofynion asesu wedi eu gosod ar y lefel briodol, ac wedi eu hymgorffori ym manyleb pob rhaglen. Er enghraifft, defnyddiwyd y FfCChC a'r Datganiadau Meincodi Pwnc gan QAA i ddatblygu'r rhaglenni IIM Lefel 6 mewn Busnes a Seicoleg. Mae aseswyr allanol, gan gynnwys arholwyr allanol, hefyd yn rhoi adborth ar ddatblygu rhaglenni.

17 Mae'r ffordd y mae'r Coleg yn ymgysylltu ag arholwyr allanol yn dal i fod yn hynod effeithiol. Mae'r staff yn gwerthfawrogi'r adborth gan yr arholwyr allanol, ac maent wedi ymateb yn rhagweithiol i bob un o'r adroddiadau a dderbyniwyd. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol a'r ymatebion iddyn nhw'n cael eu rhannu gyda staff a'r myfyrwyr, sydd yn eu trafod yn ffurfiol, ac mae unrhyw awgrymiadau o ran gwelliannau'n cael eu nodi yng Nghynllun Gweithredu parhaus y Coleg, lle cânt eu defnyddio i wella ansawdd y ddarpariaeth academiaidd. Er enghraifft, mewn ymateb i arsylwad gan un o'r arholwyr allanol ar adborth asesu, trefnodd y Coleg sesiwn ar safoni dulliau o roi adborth a marcio yn ystod y Diwrnod Datblygu Staff ym mis Hydref 2020.

18 Mae'r Coleg wedi dangos blaengaredd canmoladwy wrth adeiladu ar ymarfer mapio cychwynnol y Grŵp yn erbyn y Cod Ansawdd diwygiedig, a gynhaliwyd ym mis Awst 2019, drwy ei thrawsnewid yn ddogfen 'fyw' sy'n cael ei diweddarau'n barhaus, ac sydd ar gael i'r staff i gyd ar y rhith-amgylchedd dysgu. Mae'r ymarfer mapio'n parhau i fod yn fecanwaith effeithiol ar gyfer monitro, adolygu a gwella darpariaeth addysg uwch y Coleg mewn perthynas â'r Disgwyliadau o ran ansawdd a safonau, a'r Arferion Craidd a Chyffredin a nodir yn y Cod Ansawdd, ac o ran darparu esiamplau ymarferol i egluro ac amlygu cysylltiadau. Er mwyn sicrhau ymgysylltiad parhaus y staff gyda'r Cod Ansawdd, a'u bod yn gyfarwydd â'r wybodaeth ddiweddaraf, cynhaliodd y Coleg sesiwn diweddarau yn ystod y Diwrnod Datblygu Staff ym mis Hydref 2020 - dan y teitl 'Sut mae'r Coleg yn bodloni gofynion Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU?' - ac mae'n bwriadu cynnal y sesiwn hwn bob blwyddyn o hyn ymlaen.

## Cefndir yr ymweliad monitro

19 Mae'r ymweliad monitro'n gweithredu fel gwiriad byr o'r ffordd mae'r darparwr yn parhau i reoli safonau academiaidd ac ansawdd ei ddarpariaeth. Mae'n canolbwyntio ar y cynnydd a gafwyd ers yr adolygiad blaenorol. Yn ogystal, mae'n rhoi'r cyfle i QAA hysbysu'r darparwr am unrhyw faterion a allai fod o ddiddordeb arbennig yn yr adolygiad nesaf neu'r ymweliad monitro nesaf.

20 Gwnaed yr ymweliad monitro gan Dr Tommie Anderson-Jaquest, Adolygwr, a Nadine Baker, Swyddog QAA, ar 27 Mai 2021.

**QAA2609 - R13088 - Gorff 21**

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2021  
Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL  
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Ffôn 01452 557000  
Gwefan [www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)